Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Plas Mona**

**Ffordd Penmynydd**
**Llanfairpwllgwyngyll**
**LL61 5EX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

28/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Gofal Preswyl Plas Mona

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ynys Môn |
| Lleoedd cofrestredig | 29 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 31 Ionawr 2020 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir ac maent yn teimlo'n gartrefol. Mae pob unigolyn yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu ei anghenion unigol, yn ei ffordd ddewisol. Mae'r gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl i ddilyn eu harferion dyddiol dewisol, ac mae dewisiadau ar gael mewn perthynas â phob agwedd ar benderfyniadau o ddydd i ddydd. Mae trefniadau ar waith i alluogi'r bobl i fod mor iach â phosibl. Darperir gweithgareddau amrywiol sy'n eu hysgogi'n gorfforol ac yn feddyliol. Mae'r perthnasau'n canmol y gwasanaeth a ddarperir yn fawr ac maent hefyd yn fodlon iawn ar y gofal y mae eu hanwyliaid yn ei gael.

Mae'r cartref gofal yn cynnig amgylchedd addas sy'n cefnogi'r bobl i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Ceir dewis o ardaloedd cymunedol lle y gall y bobl fwynhau cwmni eraill, neu gallant benderfynu treulio amser yn eu hystafelloedd eu hunain. Gwneir ymdrech i sicrhau bod ystafelloedd y bobl eu hunain yn teimlo mor gartrefol â phosibl. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eu cwblhau er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Mae trefniadau arwain a rheoli cryf ar waith sy'n sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir o safon uchel yn gyson. Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel, a chânt hyfforddiant priodol. Maent yn mwynhau eu gwaith, yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y tîm rheoli. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn sicrhau ei fod yn cael ei redeg yn ddidrafferth ac yn ddiogel.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r bobl yn llunio eu cynlluniau personol ar y cyd â'r rheolwr ac mae eu safbwyntiau a'u dymuniadau yn cael eu cofnodi yn eu geiriau eu hunain. Cadarnhaodd y gweithwyr gofal fod pob person yn cael ei gefnogi yn y ffordd y mae am gael ei gefnogi. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr yn rheolaidd. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r bobl gymryd rhan mewn trafodaethau am y gwasanaeth a ddarperir. Gofynnir am safbwyntiau'r bobl yn ystod mewn adolygiadau ffurfiol o ansawdd y gofal hefyd, sy'n sicrhau eu bod yn llywio datblygiad y gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae'r bobl yn hapus am eu bod yn gallu gwneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau gwahanol ar gael, y gall y bobl ddewis cymryd rhan ynddynt neu eu gwylio os yw'n well ganddynt. Gwelsom blant o ysgol gyfagos yn ymweld â'r gwasanaeth i ganu a threulio amser yn siarad â'r bobl. Roedd yn ymddangos bod y bobl yn mwynhau'r gweithgaredd rhyngweithiol hwn. Mae'r gweithgareddau eraill a ddarperir yn cynnwys nosweithiau cymdeithasol â thema, ymweliadau gan gantorion a chorau lleol, cwisiau, bingo, te prynhawn wythnosol a sesiynau harddwch. Dywedodd teuluoedd wrthym eu bod yn cael gwahoddiad i gymryd rhan hefyd. Defnyddir technoleg fel sgriniau rhyngweithiol i wella'r cyfleoedd sydd ar gael.

Caiff cydberthnasau diogel ac iach eu hyrwyddo. Mae'r rhai sy'n byw yn y gwasanaeth wedi gwneud ffrindiau gyda'i gilydd ac mae ganddynt gydberthnasau da â'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi. Gwelsom y gweithwyr gofal yn siarad â'r bobl mewn modd caredig, gofalgar a pharchus. Roedd pob person y gwnaethom siarad ag ef yn canmol y gofal y mae'n ei gael yn fawr, gan ddweud *"Mond gair da i ddeud am y gofal"* a *"Da iawn".* Mae'r bobl yn hoffi'r rheolwr hefyd; maent yn ei weld yn ddyddiol ac yn teimlo y gallant fynd ato unrhyw bryd os oes angen.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae polisi diogelu ar waith ac mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant perthnasol. Mae'r gweithwyr gofal yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn hyderus o ran y camau y byddent yn eu cymryd pe bai angen iddynt roi gwybod am unrhyw faterion diogelu. Mae'r rheolwr yn atgyfeirio materion diogelu yn briodol at yr awdurdod lleol pan fo angen. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y gwasanaeth. Mae trefniadau ar gyfer recriwtio gweithwyr gofal yn gadarn ac yn ddiogel ac mae'r amgylchedd mewn cyflwr da.

Darperir gofal a chymorth i'r bobl yn eu dewis iaith, boed hynny yn Gymraeg neu Saesneg. Caiff y Gymraeg ei chydnabod a'i gwerthfawrogi fel rhan bwysig o hunaniaeth y bobl a'r

gymuned leol lle mae'r cartref wedi'i leoli. Caiff dogfennaeth gofal ei hysgrifennu yn Gymraeg os mai dyma yw dewis y bobl. Mae cantorion dwyieithog yn ymweld â'r gwasanaeth ac mae'r bobl yn mwynhau gwylio rhaglenni teledu Cymraeg gyda'i gilydd yn un o'r lolfeydd. Caiff Radio Cymru ei chwarae mewn ardaloedd cymunedol ac mae'r arwyddion yn y cartref yn ddwyieithog.

## Gofal a Chymorth

Mae'r rheolwr yn ystyried a yw'r gwasanaeth yn addas ar gyfer pob person cyn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth i gynnig lle iddo. Mae'n cwblhau asesiad o anghenion gofal a chymorth pob person cyn iddo symud i'r gwasanaeth. Fel rhan o'r asesiad, cesglir gwybodaeth berthnasol gan y person, ei berthnasau a'r gweithwyr proffesiynol sydd eisoes yn ei adnabod.

Mae cynlluniau personol unigol y bobl yn cynnwys eu hanes bywyd, yr hyn sy'n bwysig iddynt a sut maent yn dymuno cael eu cefnogi. Caiff anghenion gofal a chymorth penodol pob person eu cofnodi'n fanwl. Mae hyn yn sicrhau bod y gweithwyr gofal yn darparu'r gofal cywir er mwyn galluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae'r dogfennau gofal yn cofnodi bod y cymorth a ddarperir yn unol â chynlluniau personol y bobl. Gwelsom fod asesiadau risg yn cael eu defnyddio i hyrwyddo annibyniaeth yn ogystal â rheoli risgiau hysbys i iechyd a diogelwch y bobl. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru pan fo angen. Cadarnhaodd y gweithwyr gofal y gallant gael gafael ar ddogfennau gofal y bobl, ac y rhoddir gwybod iddynt am unrhyw newidiadau.

Cadarnhaodd y bobl fod y gweithwyr gofal yn darparu eu gofal yn y ffordd y maent am gael eu cefnogi. Gwnaethant ddweud wrthym; *“Gennod yn gwneud bob dim dwi angen, bob tro’n helpu”.* Dywedodd perthnasau wrthym eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am lesiant eu hanwylyd. Rhoddir gwybod iddynt hefyd am unrhyw newidiadau, a gwnaethant ddweud bod y gofal a ddarperir yn *“Excellent”.* Gwnaethant ddweud wrthym fod y gweithwyr gofal yn “*Go the extra mile, keen, friendly, positive and want to do their best.”*

Mae trefniadau ar waith i helpu'r bobl i gadw'n iach. Mae'r cynlluniau personol yn cofnodi cyflyrau meddygol y bobl a sut y cânt eu rheoli. Rhoddir meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd, a darperir cymorth i fynd i apwyntiadau meddygol. Gwelsom fod cymorth meddygol brys yn cael ei drefnu'n brydlon ar gyfer y bobl pan fydd eu hanghenion iechyd yn newid yn sydyn. Dywedodd gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld wrthym ei fod bob amser yn cael croeso, y caiff materion eu hatgyfeirio'n briodol ato, ac y dilynir y canllawiau a ddarperir bob amser. Roedd yn canmol safon y gofal a ddarperir. Gwelsom fod y bobl yn cael eu hannog i gadw'n heini ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol fel ymarferion cadair ac ioga ysgafn. Darperir deiet iach a chytbwys, a chaiff pwysau'r bobl ei fonitro.

## Yr Amgylchedd

Mae amgylchedd y cartref yn addas, yn lân ac mewn cyflwr da iawn. Ceir dewis o lolfeydd cymunedol a heulfan fawr, lle y gall y bobl dreulio amser gydag eraill neu gyda'u perthnasau os byddant yn dymuno gwneud hynny. Ceir ystafell fwyta lle y gall y bobl fwyta eu prydau gydag eraill os byddant yn dymuno gwneud hynny. Darperir cyfleusterau mewn cegin hygyrch yn yr ystafell fwyta, er mwyn i'r bobl allu helpu eu hunain i ddiodydd. Gwneir ymdrech i sicrhau bod ystafelloedd y bobl eu hunain yn teimlo mor gartrefol â phosibl, drwy gynnwys lluniau mewn fframiau o'u hanwyliaid a llenni a deunyddiau o'u cartref. Mae hyn yn galluogi'r bobl i deimlo'n gyfforddus gan fod eitemau cyfarwydd o'u hamgylch. Mae ardal awyr agored hygyrch ar gael, sy'n cynnwys ardaloedd eistedd a chyfleusterau garddio, lle y gall y bobl dreulio amser yn yr awyr agored pan fyddant yn dymuno gwneud hynny. Mae cynllun ar waith i ailaddurno'r adeilad yn rheolaidd a gosod llawr newydd er mwyn sicrhau ei fod yn cynnig amgylchedd ffres, dymunol ac mewn cyflwr da iawn i'r bobl fyw ynddo. Mae dewis o ystafelloedd gwlyb gwastad neu fathiau hygyrch ar gael. Darperir cyfarpar fel teclynnau codi hefyd er mwyn helpu i drosglwyddo'r bobl yn ddiogel.

Caiff risgiau iechyd a diogelwch eu rheoli'n briodol ar y cyfan. Mae gwiriadau parhaus ar waith er mwyn sicrhau bod risgiau i'r bobl yn cael eu nodi a bod mesurau priodol ar waith i reoli'r risgiau hysbys. Mae'r cofnodion yn dangos bod systemau diogelwch tân ar waith er mwyn sicrhau y caiff yr holl ragofalon priodol eu cymryd os bydd tân. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eraill, fel gwasanaethu cyfarpar codi, profi cyfarpar trydanol, gwasanaethu dyfeisiau nwy a phrofi ansawdd dŵr, eu cynnal yn ôl yr angen. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith ond nid ydynt bob amser yn cael eu cwblhau'n brydlon ar ôl i bobl gael eu derbyn i'r cartref. Mae'r ddogfen hon yn cofnodi'r cymorth sydd ei angen ar bob person i adael yr adeilad mewn argyfwng. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr, a roddodd sicrwydd i ni y byddai'n mynd i'r afael â hyn ar unwaith.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i'r bobl am y gwasanaeth a ddarperir. Mae datganiad o ddiben cyfredol ar gael sy'n rhoi'r gwybod i'r bobl yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar gael sy'n cynnwys gwybodaeth am y ffordd y gall y bobl wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud. Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw faterion a all fod ganddynt, a bod y rheolwr yn *“good”* ac *“approachable”.*

Mae systemau ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth a sicrhau ei fod yn cael ei redeg yn ddidrafferth, sy'n gwneud yn siŵr bod gofal a chymorth o ansawdd uchel yn cael eu darparu'n gyson. Dywedodd y bobl wrthym fod y rheolwr yn ymweld â phob person bob bore i weld sut mae ac i ofyn a yw wedi cael noson dda. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y tîm rheoli yn darparu arweinyddiaeth gref a chlir. Cynhelir archwiliadau rheolaidd i brofi agweddau amrywiol ar y gwasanaeth a ddarperir er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu fel y dylent. Caiff archwiliadau allanol hefyd eu hwyluso, fel archwiliadau meddyginiaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ymweliadau ffurfiol â'r gwasanaeth yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn unol â'r datganiad o ddiben. Yn ystod yr ymweliadau hyn, mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymgynghori â'r bobl, eu perthnasau a'r gweithwyr gofal yn ogystal â chwblhau hapwiriadau ar y dogfennau gofal. Caiff adolygiadau o ansawdd y gofal eu cwblhau ddwywaith y flwyddyn, sy'n asesu boddhad y bobl â'r gwasanaeth y maent yn ei gael yn ffurfiol.

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel a chânt hyfforddiant priodol sy'n berthnasol i anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Gwelsom fod gwiriadau addasrwydd cyn cyflogi yn cael eu cwblhau cyn i weithwyr gofal newydd ddod i weithio yn y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau cyfnod sefydlu a hyfforddiant gorfodol pan fyddant yn dechrau gweithio yn y gwasanaeth. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n fawr gan yr uwch-reolwyr. Gwnaethant ddweud wrthym fod eu rôl yn gwneud iddynt deimlo'n *“Fulfilled”*, a gwnaethant ddisgrifio'r cartref yn lle *“Wonderful”* i weithio ynddo sydd ag “*Awyrgylch neis” .* Cynhelir sesiynau goruchwylio un i un yn rheolaidd a chadarnhaodd y gweithwyr gofal eu bod yn cael budd o'r sesiynau hyn.

Mae'r lefelau staffio yn briodol i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael cymorth gan y staff pan fydd ei angen arnynt, heb orfod aros. Cadarnhaodd y gweithwyr gofal fod y lefelau staffio yn ddiogel, a'u bod yn gallu cymryd eu hamser i helpu a threulio amser gyda'r bobl. Caiff y lefelau staffio eu haddasu'n

briodol pan fydd anghenion y bobl yn newid. Defnyddir gweithwyr gofal asiantaeth pan fo angen, ond gwneir ymdrechion i sicrhau bod yr un gweithwyr gofal asiantaeth yn dod i weithio yn y gwasanaeth, fel bod y bobl yn gyfarwydd â'r holl weithwyr gofal sy'n rhoi cymorth iddynt.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/04/2024